Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cerbydau prydlesu

27 Gorffennaf 2018

## Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn:

> *A allwch chi roi'r wybodaeth a ganlyn i mi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000:*
>
> 1. *Y rhestr ddiweddaraf o geir a faniau (hyd at 4.5T) sy'n eiddo i'r Cynulliad Cenedlaethol neu sydd wedi'u prydlesu. A allwch gynnwys gwneuthuriad, model a blwyddyn gofrestru'r cerbyd.*
> 2. *Rhestr o gerbydau trydan sy'n eiddo i'r sefydliad neu sydd wedi'u prydlesu.*
> 3. *O'r cerbydau sy'n cael eu prydlesu, rhestr o'r cwmnïau a ddefnyddir i brydlesu'r cerbydau.*
> 4. *Enw, swydd, rhif cyswllt a chyfeiriad e-bost yr aelod(au) o staff sy'n gyfrifol am y cerbydau hyn.*
> 5. *Enw'r person sy'n bennaeth caffael os yw'n wahanol i gwestiwn 4.*

Mae ein hymateb i'ch cais i'w weld isod.

1. Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad un car prydles; Ford Fiesta 1.5Tdci Zetec, ar blât 65 (2015).
2. Nid yw'r Cynulliad yn berchen ar unrhyw gerbydau trydan nac yn eu prydlesu ar hyn o bryd.
3. Cyflenwr ein car prydles yw Days Rental ac mae wedi'i restru yn ein rhestr o gontractau ar ein *gwefan* o dan *Car Hire*.
4. Y person sy'n gyfrifol am y contract hwn yw Matthew Jones, Rheolwr Cynaliadwyedd. Gallwch gysylltu â Matthew drwy ffonio 0300 200 6444 neu e-bostio cynaliadwyedd@cynulliad.cymru.
5. Cyhoeddir manylion cyswllt y Pennaeth Caffael ar ein gwefan. Gan fod y wybodaeth hon eisoes wedi'i chyhoeddi, mae'r rhan hon o'ch cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes yn hygyrch o fewn rheswm drwy ddulliau eraill, h.y. eisoes wedi'i chyhoeddi ar ein gwefan.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF